Hyfforddiant a Datblygiad

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn ymrwymedig i ddarparu hyfforddiant o safon uchel ar amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â cham-drin domestig, yn fewnol yn ogystal ag yn allanol.

Hyfforddiant Allanol

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn darparu hyfforddiant ar Gam-drin Domestig i sefydliadau allanol er mwyn cynyddu dealltwriaeth o effeithiau cam-drin domestig ar fenywod, plant a phobl ifanc.

Mae'r pynciau a drafodir yn cynnwys:

- Deall y diffiniad o gam-drin domestig a deinameg perthynas gamdriniol
- Deall y rhwystrau sy'n wynebu dioddefwyr cam-drin domestig
- Y mythau a'r stereoteipiau sy'n ymwneud â cham-drin domestig
- Deall pam bod rhai unigolion yn aros mewn perthynas gamdriniol, neu'n dychwelyd i berthynas gamdriniol
- Gwybodaeth am yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael a sut i atgyfeirio unigolion

Rydym hefyd yn cynnig hyfforddiant arbenigol ar amrywiaeth o feysydd sy'n ymwneud â cham-drin domestig, gan gynnwys:-

- Hyfforddiant cyfreithiol
- Materion cyffredinol sy'n ymwneud â thai
- Hawliau lles
- Hyfforddiant wedi'i deilwra'n arbennig

Cymorth i Ferched Cymru
38–48 Heol Crwys,
Caerdydd CF24 4NN

Ffôn 02920 390874
Ffacs 02920 390878
E-bost info@welshwomensaid.org.uk

www.welshwomensaid.org

Hyfforddiant Mewnol

Darperir hyfforddiant i grwpiau sy'n aelodau o Gymorth i Ferched ar sail barhaus drwy raglen dreigl o hyfforddiant. Nod Cymorth i Ferched Cymru yw sicrhau y darperir hyfforddiant perthnasol a phriodol i'r grwpiau sy'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau o safon ragorol a diwallu anghenion proffesiynol y sefydliad.

Mae hyfforddiant sylfaenol ar ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ar gael i bob aelod newydd o staff ac ymddiriedolwyr newydd Cymorth i Ferched, a chynigir hyfforddiant arbenigol i Weithwyr Plant.

Mae dosbarthu Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi blynyddol CFC i bob grŵp ar ddiwedd y flwyddyn yn rhoi cyfle euraid i aelodau gyfrannu at gynllunio'r rhaglen hyfforddi ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae Gweithwyr Cenedlaethol hefyd yn darparu mewnbwn gwerthfawr i'r broses hon gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd o grwpiau diddordeb arbennig a chyfarfodydd allanol.

Mae hyn hefyd yn sicrhau bod:

- Hyfforddiant yn cael ei flaenoriaethu i gyd-fynd â chynllun busnes a sefyllfa bresennol y sefydliad.
- Hyfforddiant yn cael ei deilwra i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion y grwpiau ac amcanion y sefydliad.

Dysgu Gydol Oes

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn ymrwymedig i ddysgu gydol oes ac yn annog unigolion i ddatblygu ac adeiladu ar eu cryfderau unigol. Fel sefydliad sy'n gweithio i sefydlu diwylliant o ddysgu o fewn y mudiad Cymorth i Ferched, rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth o ddulliau hyfforddi sy'n gweddu i anghenion pob unigolyn, gan gynnwys:

- **Hyfforddi**
- **Cysgodi**
- **Mentora**
- **Dysgu o bell**
- **Dysgu ar-lein**

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Rhian Jones, Cydlynydd Hyfforddiant a Datblygiad
Ffôn: **029 2039 0874** neu ewch i
www.welshwomensaid.org/aboutus/training.html

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD

www.welshwomensaid.org